**CYNGOR CAERDYDD**

COFNODION

# CYFARFOD Y CABINET: 2 TACHWEDD 2017

| | |
|---|---|
| Aelodau Cabinet yn Bresennol: | Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd)<br>Y Cynghorydd Peter Bradbury<br>Y Cynghorydd Susan Elsmore<br>Y Cynghorydd Russell Goodway<br>Y Cynghorydd Graham Hinchey<br>Y Cynghorydd Sarah Merry<br>Y Cynghorydd Michael Michael<br>Y Cynghorydd Lynda Thorne<br>Y Cynghorydd Christopher Weaver<br>Y Cynghorydd Caro Wild |
| Gwylwyr: | Y Cynghorydd Joe Boyle<br>Y Cynghorydd Adrian Robson |
| Swyddogion: | Paul Orders, y Prif Weithredwr<br>Christine Salter, Swyddog Adran 151<br>David Marr, ar ran y Swyddog Monitro<br>Joanne Watkins, Swyddfa'r Cabinet |
| Ymddiheuriadau: | |

## COFNODION CYFARFOD CABINET A GYNHALIWYD AR 12 HYDREF 2017

**PENDERFYNWYD:** bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref yn cael eu cymeradwyo

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Derbyniodd y Cabinet Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2016-17. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r penderfyniad a wnaed gan Gydbwyllgor y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn ystod y flwyddyn ynghyd â pherfformiad a sefyllfa ariannol y Gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD:** nodi Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2016-17

## ADRODDIAD CWYNION BLYNYDDOL CYNGOR CAERDYDD 2016 - 17

Cafodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu manylion am gwynion a chanmoliaethau corfforaethol a dderbyniodd y Cyngor yn ystod 2016-17. Adroddwyd bod nifer y cwynion wedi gostwng 23.5% o'i gymharu â'r flwyddyn gynt a'r canmoliaethau wedi cynyddu 43.1%.

**PENDERFYNWYD:** y byddai cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi

**ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS**

*Ni fydd Atodiadau A a B i Atodiad 1 yr adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio dan y disgrifiad a geir ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

Ystyriodd y Cabinet Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys a roddodd grynodeb o weithgareddau rheoli'r trysorlys y Cyngor ers 1 Ebrill 2017.

**PENDERFYNWYD:** y dylai'r Cyngor gymeradwyo nodi adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2017-18 (Atodlen 1)

**CYNIGION CYLLIDEBOL 2018/19 I YMGYNGHORI ARNYNT**

Derbyniodd y Cabinet adroddiad oedd yn cynnwys diweddariad ar yr angen i leihau'r Gyllideb ar gyfer 2018/19 oedd yn cynnwys manylion o'r setliad llywodraeth leol cychwynnol. Adroddwyd bod y setliad cychwynnol yn nodi cynnydd ariannol ar AEF o 0.2% oedd yn cynnwys cyfrifoldeb newydd yn ymwneud ag atal digartrefedd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am yr angen presennol i leihau'r gyllideb £22.8 miliwn, fyddai angen ei gyflawni drwy gyfuniad o arbedion cyllidebol, capio twf ysgolion, cynnydd i'r Dreth Gyngor a defnyddio cronfeydd wrth gefn. Awgrymwyd y dylid cynnal ymgynghoriad ar yr arbedion cyllidebol arfaethedig ac roedd yr adroddiad yn cynnwys rhaglen ymgynghori ac ymgysylltu.

**PENDERFYNWYD:**

(1) y caiff cynigion arbedion y gyllideb fel y'u hatodwyd yn Atodlen 2 eu cymeradwyo fel Cynigion Arbedion Cyllideb y Cabinet ar gyfer Ymgynghori arnynt.

(2) I'w nodi y bydd yr ymgynghoriad ffurfiol ar y gyllideb yn dechrau ar 2 Tachwedd 2017 ac yn para tan 14 Rhagfyr 2017. Caiff canlyniadau'r broses ymgynghori eu hystyried wedyn gan y Cabinet fel rhan o'r paratoad at gynnig eu cyllideb derfynol ar gyfer 2018/19.

(3) I’w nodi y bydd y Prif Weithredwr fel Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig yn cyhoeddi’r ymgynghoriadau cyflogaeth statudol ac anstatudol angenrheidiol o safbwynt goblygiadau staffio’r cynigion.

(4) dirprwyo awdurdod i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, ar y cyd â’r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, wneud mân newidiadau i’r testun a’r ystadegau ategol yn y ddogfen ymgynghori “Newid i Gaerdydd” cyn ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.